

Maethu *gyda* Sir y Fflint

gwneud gwahaniaeth i blentyn lleol

www.flintshirefostering.org.uk

Sut i ddod yn ofalwr maeth



Beth yw maethu?

Gallwch wneud gwahaniaeth i fywyd plentyn lleol heddiw

Trwy rannu cartref eich teulu, gallech ryddhau bywyd plentyn o gamdriniaeth ac esgeulustod neu roi cyfle i deuluoedd ddatrys eu problemau.

Mae gofalwyr maeth yn gofalu am blant pan nad oes modd iddynt fyw gyda'u teuluoedd eu hunain. Gall yr amser amrywio o ychydig ddyddiau i ambell flwyddyn. Gall maethu olygu gofalu am blant o bob oed, o fabanod i bobl ifanc yn eu harddegau ac ar ôl iddyn nhw gyrraedd eu pen-blwydd yn ddeunaw oed.

Gallwch ddewis ystod oedran sy'n addas i'ch teulu ond dylai fod mor eang ag sy'n bosibl.

Nid yw'n hawdd ond mae'n bosibl mai dyma'r defnydd gorau a roddwch i'ch ystafell sbâr.

Mae maethu gyda'ch Cyngor Lleol yn rhoi siawns i chi helpu plant lleol a'u helpu i aros yn eu hardaloedd a'u hysgolion lleol. Bydd cymorth a hyfforddiant ar gael ar garreg eich drws a thîm o weithwyr profiadol gerllaw y gallwch ymddiried ynddyn nhw i fod yno i chi bob cam o'r ffordd. Ymunwch â thros 120 o deuluoedd lleol sydd eisoes yn maethu gyda ni.



Sut ydw i'n dod yn rhiant maeth?

Rhan Un: Gwybodaeth

Ymholiad cychwynnol	
Pecyn gwybodaeth	
Mynychu noson wybodaeth	Byddwch yn cael ffurflenni i'w llenwi.
Ymweliad cychwynnol	Bydd angen i ni wirio'ch prawf adnabod a pha mor addas yw'ch cartref.
Gwiriadau iechyd a Gwiriadau gan yr heddlu	



Rhan 2: Aseiad

4-6 Mis	Hyfforddiant sgiliau i faethu	Mae hwn yn gwrs 3 diwrnod ar bob agwedd ar faethu.
	Aseiad	Bydd gweithiwr cymdeithasol yn ymweld â chi o leiaf chwe gwaith er mwyn dod i'ch adnabod.
	Panel	Bydd eich gweithiwr cymdeithasol yn cyflwyno adroddiad i'r panel. Gallwch chi hefyd fod yn bresennol.
	Cymeradwyaeth	Bydd y panel yn gwneud argymhelliad i benderfynwyr yr asiantaeth ynglŷn â'ch cymeradwyo.

Pwy sy'n gallu maethu?



Ystafell sbâr

Rhaid i chi fod ag ystafell wely sbâr. Dylai plant sy'n cael eu maethu gael ystafell wely ar wahân i'ch plant eich hunain. Dim ond os ydych yn maethu brodyr a chwiorydd neu blant o dan 5 oed o'r un rhyw y gallant rannu ystafell wely.



Amser ac egni

Bydd angen amser arnoch i fynychu cyrsiau hyfforddi a chyfarfodydd ac i gasglu plant o'r ysgol neu amser sbâr rheolaidd ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Gallwch barhau i weithio'n rhan amser neu'n llawn amser. Mae'n rhaid i un person fod gartref yn ystod y dydd i ofalu am blant o dan bum mlwydd oed neu blant sydd ar gynllun arbenigol.



Oed

Mae'n rhaid i chi fod yn ddigon hen i fod yn ffigwr rhiant priodol, ond does dim terfyn oedran.



Personoliaeth

Bydd angen i chi fod â dyfalbarhad ar gyfer yr adegau da a'r adegau anodd, a bydd angen synnwyr digrifwch arnoch.



Iechyd

Mae'n rhaid i chi ofalu am eich iechyd eich hun. Ni fydd plant o dan bum mlwydd oed yn cael eu lleoli gydag unrhyw un sy'n ysmegu. Ni fyddwch yn cael eich eithrio os ydych dros eich pwysau neu os oes gennych salwch, ond mae'n rhaid i chi fod yn ddigon iach i fedru cynnig cartref sefydlog, gofalgar.



Dewiswch ystod oedran sy'n briodol i'ch teulu

Os ydych yn gweithio'n llawn amser neu'n ysmegu, argymhellwn i chi faethu plentyn oedran ysgol.



Perthynas sefydlog

Gallwch fod yn sengl, yn briod, wedi ysgaru, yn bartner sifil neu'n byw gyda phartner. Rhaid i chi fod mewn perthynas ers 2 flynedd neu fwy. Gallwch fod o unrhyw gyfeiriadedd rhywiol.



Dim euogfarnau am droseddau treisgar neu droseddau yn erbyn plant

Mae'n rhaid i chi gytuno i gael gwiriad gan yr heddlu a rhaid i chi beidio â bod ag unrhyw gollfarn am drais neu am gam-drin rhywun yn rhywiol neu gollfarn yn erbyn plant.

Pa fath o faethu?

Wrth ddewis pa fath o faethu sydd orau i chi, dylech ystyried...

A fydd rhywun ar gael adref yn ystod y dydd?
A fyddwch yn gallu danfon a nôl y plentyn o'r
ysgol, oriau hyblyg?

Na fydd / Na fyddaf

Gofalwyr seibiant

Maent yn cynnig cymorth i ofalwyr maeth amser llawn er mwyn rhoi seibiant iddynt. Hefyd, gallant gynnig lle diogel i blentyn mewn argyfwng neu am gyfnod byr i helpu teulu.

Gofalwyr seibiant byr

Mae'r rhain yn cynnig ymweliadau rheolaidd dros benwythnosau a gwyliau am wythnos i blentyn anabl (rhwng 5 a 19 oed) am nifer o flynyddoedd. Mae'r plant yn byw gartref gyda'u teuluoedd.

Maethu Arbenigol

Wrth i'ch sgiliau ddatblygu, mae'n bosibl y cewch eich ystyried ar gyfer maethu arbenigol; edrych ar ôl plant a phobl ifanc gydag ymddygiad heriol neu riant a phlentyn gyda'i gilydd. Bydd arnoch angen grym ewyllys a phenderfyniad. Mae maethu arbenigol yn cynnwys taliad uwch.

Bydd/
Byddaf

A oes unrhyw un yn y cartref yn ysmegu?

Nac oes

Oes

Ystod Oedran 0-18+

5-18+

A oes unrhyw blant eraill ar yr aelwyd?

Nac oes

Oes

Dewiswch ystod oedran sy'n iau na'ch plant eich hun

Gofalwyr maeth amser llawn

Maent yn edrych ar ôl plant (rhwng 0 ac 18+ oed) gyda'r nod o ddychwelyd plant at eu teuluoedd biolegol. Os nad yw'r plentyn yn gallu dychwelyd i'w gartref, gall gofalwyr maeth helpu plant i symud ymlaen at deulu a fydd yn eu mabwysiadu neu eu cefnogi nes byddant yn tyfu'n oedolion.

Pan fydd plentyn yn byw dan eich gofal, byddwch yn derbyn **lwfans maethu** (yr wythnos fesul plentyn) i helpu i dalu am gostau gofalu am y plentyn, megis bwyd, gwres a dillad.

Wrth i chi ddatblygu eich gyrfa fel gofalwr maeth, byddwch yn derbyn **taliad gofalwr ychwanegol** (yr wythnos). Gwneir y taliadau pan fydd plentyn yn byw dan eich gofal. Fe'u telir yn syth i mewn i'ch cyfrif banc

A:

- lwfans pen-blwydd
- lwfans gwyliau crefyddol
- lwfans gwyliau blynyddol

Cynlluniau maethu arbenigol

Mae gofalwyr cynllun arbenigol yn derbyn y lwfans maethu (fesul wythnos fesol plentyn) yn ogystal â thaliad uwch. Nid ydym bellach yn recriwtio i gynlluniau hanesyddol.

Egwyl fer

Mae gofalwyr egwyl fer yn derbyn lwfans os yw plentyn yn aros am 6 awr, 12 awr neu 24 awr/dros nos, gan dderbyn hyd at £48.81 am arhosiad dros nos.

Treth ac yswiriant gwladol

Fel gofalwr maeth mae angen i chi gofrestru fel gweithiwr hunangyflogedig. Mae gofalwyr maeth yn gymwys i gael eu heithrio'n sylweddol rhag talu treth ac yswiriant gwladol.

2019/20

Oed	0-4	5-10	11-15	16+
Lefel 1 'gofalwr maeth newydd'	£181	£165	£179	£217
Lefel 2 'hyfforddiant craidd wedi'i gwblhau / ychydig o brofiad o faethu'	£181 + £65	£165 + £65	£179 + £65	£217 + £65
Lefel 3 'hyfforddiant uwch wedi'i gwblhau / gofalwr maeth profiadol'	£181 + £125	£165 + £125	£179 + £125	£217 + £125
Lefel 4 'gofalwr maeth cymwysedig a phrofiadol'	£181 + £230	£165 + £230	£179 + £230	£217 + £230
Cynllun arbenigol i ofalwyr maeth	£181 + taliad uwch	£165 + taliad uwch	£179 + taliad uwch	£217 + taliad uwch
Pan fyddaf yn barod				£206

yr wythnos, pan fydd plentyn yn byw o dan eich gofal

Allwedd

- Lwfans maethu
- Taliad gofalwr ychwanegol

Y cam nesaf

Ar ôl darllen y pecyn gwybodaeth hwn, hoffem eich gwahodd i noson wybodaeth i ganfod mwy. Byddwn yn rhoi ffurflenni i chi eu llenwi er mwyn gwirio'ch cefndir. Yna byddwn yn ymweld â chi yn eich cartref i wirio'ch prawf adnabod ac addasrwydd eich cartref.

Hyfforddiant sgiliau maethu

Bydd yr hyfforddiant cychwynnol yn rhoi syniad i chi o'r broses, yr anawsterau a'r manteision sydd ynghlwm wrth faethu. Dylai pawb sy'n ymwneud â gofalu am y plentyn fod yn bresennol, gan gynnwys chi a'ch partner (neu aelod o'r teulu) a hyd yn oed eich plant eich hun (yn dibynnu ar eu hoedran).

Cynhelir hyfforddiant Sgiliau Maethu dros dri diwrnod llawn a byddwn yn trafod rôl y rhiant maeth, y plant, gweithio gyda'n gilydd, diogelwch, ymddygiad a gollwng gafael.

Mae sesiwn hyfforddi yn ystod y bore ar wahân ar gyfer eich plant.

Bydd yr hyfforddiant yn eich helpu chi i benderfynu a yw maethu'n addas i chi.

Pwy yw ein rhieni maeth?



“ Anwen

Mae Anwen, gyda chymorth ei gwŷr, wedi bod yn ofalwr maeth ers dros 8 mlynedd. Bu'n maethu gydag asiantaeth am 2 flynedd i ddechrau cyn dewis trosglwyddo i'r Cyngor Lleol. Ar y dechrau roedd Anwen yn darparu gofal seibiant, sy'n cynorthwyo gofalwyr llawn amser ac yn rhoi seibiant iddynt yn ôl yr angen.

“Mae'r prif ofalwyr maeth yn cael seibiant am benwythnos neu wythnos ac maen nhw'n dod yn ôl yn teimlo'n effro. Rydym yn teimlo ein bod wedi rhoi seibiant gwych iddyn nhw ac maen nhw'n ei werthfawrogi. Maen nhw'n cael amser i wefru eu batris eto. Rydym yn dweud wrth y plant mai eu gwyliau nhw ydy o. Mae fel mynd at aelod o'r teulu neu berthynas. Maen nhw wrth eu boddau'n dod yma.”

Mae Anwen wedi gofalu am blant o bob oed o fabanod i bobl ifanc yn eu harddegau.

“Y rheswm y maen nhw'n cael gofal yw oherwydd eu bod wedi cael eu hesgeuluso neu, o bosibl, eu cam-drin. Mae angen normalrwydd arnyn nhw. Mae'n ddiwrnod cyffredin i ni, ond nid iddyn nhw. Efallai na fyddan nhw wedi arfer cael yr un gofal a sylw o'r blaen, efallai y bydd yn beth newydd iddyn nhw.

Rydych yn meithrin perthynas â nhw ac yn dod i'w hoffi, ond y gobaith yw y bydd llawer o blant yn symud ymlaen ac rydych yn teimlo fel petaech chi wedi eu helpu ar hyd y llwybr at fabwysiadu neu i ddychwelyd at eu rhieni eu hunain.

Nid ydym yn arbennig nac yn anghyffredin, pobl normal ydym ni sydd â synnwyr digrifwch da.”

Yr asesiad

Gwirio cefndir

Gwirio cofnodion troseddol

Mae'n rhaid i bob aelod o'ch cartref sydd dros 16 mlwydd oed gael gwiriad. Byddwn hefyd yn cysylltu â thimau gwasanaethau prawf yr ardaloedd yr ydych wedi byw ynddyn nhw.

Gwiriadau iechyd

Byddwn yn cysylltu â'ch Meddyg Teulu er mwyn sicrhau bod eich iechyd yn ddigon da i ofalu am blentyn. Byddwn yn gofyn i chi fynychu apwyntiad meddygol gyda'ch meddyg teulu.

Llythyrau geirda

Bydd gofyn i chi ddarparu dau eirda yr un. Ni ddylai'r canolwyr fod yn perthyn i chi a dylent fod yn bobl sy'n eich adnabod ers dros ddwy flynedd ac sydd, yn ddelfrydol, yn byw yn lleol. Gofynnir i'r canolwyr lenwi ffurflen a byddwn hefyd yn ymweld â nhw. Byddwn hefyd yn cysylltu â'ch cyflogwr am eirda.

Gwiriadau tramor a milwrol

Os ydych wedi byw dramor neu wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog, byddwn hefyd yn cysylltu â'r awdurdodau perthnasol.

Amddiffyn plant

Byddwn hefyd yn gwirio a ydych wedi cael unrhyw gyswllt â'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant yn y gorffennol ym mhob ardal yr ydych wedi byw. Mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu ag ysgolion eich plant hefyd i wirio eu presenoldeb a'u hymroddiad i addysg.

Ar ôl i chi ddychwelyd ac ar ôl i'ch gwirio'ch cefndir gael eu cwblhau, byddwn yn trefnu i weithwr cymdeithasol lleoli plant eich asesu (cyn gynted ag y bydd un ar gael). Bydd yn rhaid i ni ddyrannu gweithwyr cymdeithasol lleoli plant yn ôl yr angen ar y pryd felly gallai fod peth oedi cyn i chi gael gweithiwr cymdeithasol ar ôl eich hyfforddi.

Adroddiad astudiaeth cartref

Bydd eich gweithiwr cymdeithasol lleoli plant yn ymweld â chi o leiaf chwe gwaith er mwyn cynnal yr asesiad. Gallai'r ymweliadau fod gyda'r nos, er y gellir gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith fel arfer mewn sesiynau yn ystod y dydd. Bydd cwblhau gwaith cartref hefyd yn helpu i gyflymu'r broses asesu. Gall hyn deimlo fel proses ymwithiol iawn, ond erbyn y diwedd bydd gennym ddarlun clir o'ch anghenion chi yn ogystal ag anghenion y plentyn mewn gofal. Bydd hynny o gymorth i ni eich paru'n llwyddiannus. Bydd adroddiad yr astudiaeth cartref yn cynnwys. Eich cefndir, addysg, cyflogaeth, diddordebau a phersonoliaeth

Cyn bartneriaid Os ydych wedi bod mewn perthynas arwyddocaol yn y gorffennol, rydym o dan gyfarwyddyd llym i gysylltu â'ch cyn bartner i wirio achosion o drais yn y cartref. Dim ond os gallwch ddarparu tystiolaeth bendant y byddai hynny'n peri gofid neu'n fygythiad i'ch teulu y gallwn benderfynu peidio â chysylltu â nhw.

Cartref, gardd a chymdogaeth Bydd eich cartref a'r ardal lle'r ydych yn byw hefyd yn cael eu hasesu o ran diogelwch, adnoddau a mynediad i ysgolion lleol. Os ydych yn maethu plant dan 8 oed, rhaid i chi osod gorchudd plastig neu grid parhaol ar byllau a nodweddion dw'r mewn gerddi er mwyn diogelu plant.

Eich teulu Bydd y gweithiwr cymdeithasol a fydd yn eich asesu yn cynnal trafodaethau unigol gyda phawb yn y cartref i drafod eu teimladau a'u hagwedd tuag at faethu.

Anifeiliaid anwes Caiff unrhyw anifeiliaid anwes eu hasesu i ofalu eu bod yn ddiogel ac na fyddant yn peryglu'r plentyn. Ni fydd neb sydd â chw'n sydd wedi'u henwi yn y Ddeddf Cw'n Peryglus 1991 yn cael eu hystyried. Mae cw'n peryglus yn cynnwys Pit Bull Terrier, Japanese Tosa, Dogo Argentino a Fila Brasileiro.

Cyllid Trafodir incwm a threuliau'r teulu, i'ch helpu i asesu'r cyllid sy'n gysylltiedig â maethu. Trafodir unrhyw fenthyciadau a dyledion hefyd er mwyn sicrhau bod eich cartref yn ddiogel.

Portffolio Gofynnir i chi gasglu darnau o dystiolaeth ar gyfer eich portffolio i ddangos pa sgiliau a phrofiad sydd gennych.

Albwm ffotograffau Mae albwm ffotograffau o'ch teulu a'ch cartref yn ychwanegiad da i'ch portffolio ac yn ffordd wych i ni gyflwyno'ch teulu i blentyn maeth.

Cyn gynted ag y bydd eich asesiad wedi'i gwblhau, bydd eich gweithiwr cymdeithasol yn cyflwyno'ch asesiad i'r panel maethu. Mi gewch wahoddiad i fod yn bresennol.

Mae'r panel yn cynnwys pobl sydd â phrofiad o ofal plant a maethu. Efallai y byddant yn gofyn rhai cwestiynau i chi. Gallai'r rhain fod mewn cysylltiad â'ch asesiad ond maen nhw'n debycach o fod ynghylch ein gwasanaeth ni i chi. Bydd cyfle i chi hefyd holi'r panel.

Ar ôl eich cyfarfod, bydd y panel yn gofyn yn gwrtais i chi adael yr ystafell am gyfnod byr tra bydd yr achos yn cael ei drafod. Yna, bydd cadeirydd y panel yn ymuno â chi i'ch hysbysu'n breifat o argymhelliad y panel.

Bydd penderfynwyr yr asiantaeth yn derbyn argymhelliad y panel ac yn ysgrifennu atoch gyda'r penderfyniad terfynol ynglŷn â'ch cymeradwyo.

Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n mynychu'r panel yn cael eu derbyn fel rhieni maeth. Cewch wybod fel arfer os bu unrhyw broblem gyda'ch cais yn ystod y broses asesu.

Pwy yw ein rhieni maeth?



Gavin



Mae Gavin wedi bod yn maethu ers dros 8 mlynedd. Mae Gavin yn ofalwr sengl, sy'n gofalu am blant 8 i 18 oed.

“Pan ydw i'n dweud fy mod yn ofalwr maeth, mae pobl yn meddwl fy mod yn wallgof, rwy'n credu eu bod yn disgwyl i ofalwyr maeth fod yn gyplau canol oed. Nid yw bod yn sengl ac mewn swydd lawn amser yn rhwystr. Mae'n gallu bod yn brysur, ond gallwch wneud beth fedrwch chi pan ydych ar gael. Mae'n golygu bod yn rhaid i chi fod yn drefnus iawn ac yn ddisgybledig â'ch amser, ond mae llawer o fanteision i fod yn ofalwr sengl. Mae'r plant a'r bobl ifanc yn wirioneddol gwerthfawrogi'r sylw unigol y maen nhw'n ei gael. Yn aml dydyn nhw ddim wedi cael hynny yn eu bywydau gartref.”

“Rydw i wrth fy modd gyda phopeth. Teimlaf fy mod yn cyfrannu at ddatblygiad pobl ifanc. Mae'n rhoi boddhad mawr gwybod eich bod wedi chwarae'ch rhan. Rydych yn ffurfio perthynas agos â nhw. Mae'r bobl ifanc yn hoffi teimlo fod rhywun yn gofalu amdanyn nhw. Mae'n rhoi boddhad mawr i mi ac mae'n debyg ei fod yn un o'r pethau mwyaf boddhaus y gallwch ei wneud.

“I unrhyw un sy'n ystyried gwneud hyn, byddwn yn bendant yn dweud “Cer amdani.” Mae'r cymorth sydd ar gael yn wych a thrwy fynd at eich Cyngor Lleol cewch gyfle i ofalu am blant sy'n agored i niwed ac sy'n byw yn eich ardal leol. Dyma'r profiad mwyaf boddhaus a gewch.”

Pan fyddwch yn dechrau maethu

Pan fydd plant yn cyrraedd

Pan dderbynnir plentyn i'r system gofal, byddwn yn ystyried a fydd eich teulu a'ch sgiliau'n gallu diwallu ei anghenion. Byddwn yn cysylltu â chi gyda manylion y plentyn i weld a allwch ddarparu gofal. Bydd gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn dod i ymweld â chi ac yn eich cyflwyno i'r plentyn.

O dro i dro bydd angen lleoliad ar frys, a bydd angen symud plentyn o'i gartref ar unwaith er ei ddiogelwch ei hun. Byddwn yn trafod gyda chi a fyddwch yn gallu cynnig lle i blentyn mewn argyfwng, gan y gallai'r rhain gyrraedd eich cartref yn oriau mân y bore a chydag ond ychydig iawn o rybudd. Bydd gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn dal i gadw mewn cysylltiad â'r plentyn ac yn adolygu'r sefyllfa'n rheolaidd. Gofynnir i chi fod yn bresennol mewn rhai cyfarfodydd.

Gall y plant gyfarfod â'u rheini a'u brodyr a'u chwiorydd yn rheolaidd, os ystyrir bod hynny'n ddiogel. Bydd eich gweithiwr cymdeithasol lleoli plant yn ymweld yn rheolaidd i'ch cefnogi. Bydd ein llawlyfr maethu hefyd ar gael i'ch arwain chi. Bydd y lleoliad yn cael ei adolygu'n rheolaidd i weld faint o gefnogaeth a hyfforddiant fydd ei angen arnoch.

Bob blwyddyn byddwch yn cael adolygiad blynyddol i weld sut mae pethau'n mynd.

Hyfforddiant pellach

Mae disgwyl i chi fynychu cyfres o hyfforddiant gofal maeth craidd cyn pen 6-12 mis ar ôl cael eich cymeradwyo. Bydd modd i chi hefyd fynychu cyrsiau eraill a gynigir gan Gyngor Sir y Fflint. Mae mynychu hyfforddiant yn hanfodol er mwyn datblygu'ch sgiliau a chynyddu lefelau'ch taliadau gofal maeth.

Beth mae gofalwr maeth yn ei wneud?

Gofalu am blant a phobl ifanc

- Gosod rheolau a ffiniau i'r plant
- Helpu'r plant i fod yn iach, i ddatblygu ac i wneud eu gorau yn yr ysgol
- Helpu'r plant i barhau i arddel eu tarddiad, eu crefydd a'u diwylliant
- Helpu'r plentyn i symud ymlaen i gyfnod nesaf ei fywyd

Darparu amgylchedd diogel a gofalgar

- Cadw'r plant yn ddiogel a'u haddysgu am ddiogelwch
- Helpu'r plentyn i gadw mewn cysylltiad â'i frodyr a'i chwiorydd a'i berthnasau
- Cynrychioli'r plentyn pan fydd angen llais oedolyn i siarad ar ei ran

Gweithio fel rhan o dîm

- Cadw cofnod o ymddygiad a gofal a mynychu cyfarfodydd
- Cadw gwybodaeth am y plentyn a'i deulu'n gyfrinachol
- Gweithio fel rhan o dîm gyda gweithwyr cymdeithasol, y plentyn a'i deulu

Gwella'ch sgiliau chi'ch hunan

- Mynychu hyfforddiant a chyfarfodydd cymorth

Grŵp cefnogi rhieni maeth



Digwyddiadau cymdeithasol

Mae'r grŵp cymorth i ofalwyr maeth yn trefnu digwyddiadau cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn sy'n rhoi cyfle i chi gyfarfod â gofalwyr profiadol a chael hwyl mewn awyrgylch hamddenol.

Mae'r grŵp yn cynnwys holl rieni maeth Sir y Fflint, gan gynnwys gofalwyr newydd a phobl sydd wedi bod yn maethu dros 20 mlynedd.

Mae'n rhieni maeth yn dweud:

“mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn i ni gan ein bod yn gallu cyfarfod a sgwrsio gyda rhieni maeth eraill a gweld yn union be di be”

“cyfarfod rhieni maeth eraill, cael sgwrs a chwerthin, rhannu pryderon cyffredin”

“dod at ein gilydd, gwneud ffrindiau newydd, cael noson allan”

Llinell ffôn a bydi

Bydd gennych rifau ffôn a chyfeiriadau e-bost gofalwyr maeth profiadol, os oes arnoch angen sgwrs i dawelu'ch meddwl.

Gwefan ddiogel

“Fosterweb” yw'r wefan ddiogel ar gyfer gofalwyr maeth Sir y Fflint i gyrchu gwybodaeth am newyddion, digwyddiadau, hyfforddiant, ffurflenni ar-lein, llawlyfr...

Cefnogaeth ar gyfer eich plant

Rydym yn rhedeg grŵp cefnogi ar gyfer plant rhieni maeth, sy'n cynnig hyfforddiant, cefnogaeth a digwyddiadau llawn hwyl i ddweud diolch yn fawr i'ch plant eich hun.

“

“Pan ddechreues i feddwl am faethu, roeddwn am wneud yn siw'r bod fy mhiant fy hun yn hapus hefo'r syniad. Mae maethu lfanc yn rhoi cyfle iddynt fwynhau trip yn ystod pob gwyliau ysgol i ddweud diolch”



“

Helen

Mae Helen wedi bod yn ofalwr maeth ers 8 mlynedd, gan ofalu am blant o chwe wythnos oed i 16 oed. Mae wedi gofalu am 27 o blant.

“Mae pob plentyn yn unigolyn; maen nhw’n dod o wahanol gartrefi, ac mae ganddyn nhw eu profiadau a’u problemau eu hunain. Mae gan nifer o’r plant yr wyf yn gofalu amdanynt nhw broblemau bwyd gan fod bwyd yn rhoi cysur iddyn nhw ac maen nhw wedi dod o gartrefi lle nad oedd unrhyw amseroedd penodol ar gyfer prydau bwyd a lle nad oedd bwyd bob amser ar gael.”

“Fel gofalwr maeth mae angen i chi gael strwythur a therfynau. Rhaid i chi ymrwymo i’r plentyn a mynychu hyfforddiant, yn arbennig yn eich blwyddyn faethu gyntaf. Mae hyfforddiant yn eich helpu i ddeall ymddygiad y plentyn, y gwahanol drawma y mae’r plant wedi’u hwynebu a sut i ddelio â hynny.”

“Mae rhywun ar ben arall y ffôn bob amser. Rwyf wedi cael cymorth da gan Wasanaeth Maethu Sir y Fflint pryd bynnag yr oedd ei angen arnaf.”

“Os ydych chi’n ystyried maethu dylech ystyried a fedrwch chi roi’r ymrwymiad a’r amser sy’n angenrheidiol. Dylech drafod y mater yn hir ac yn fanwl fel teulu a phenderfynu ai dyma’r adeg iawn.”

C. Alla i weithio yn ogystal â maethu? Gallwch. Fodd bynnag, os byddwch yn maethu plant o dan 5 mlwydd oed neu blant sydd ar gynllun arbenigol, rydym yn gofyn i un rhiant fod gartref yn ystod y dydd.

C. A yw'r plant yn cael rhannu ystafelloedd gwely? Rhaid i chi fod ag ystafell wely sbâr. Dylai plant sy'n cael eu maethu gael ystafell wely ar wahân i'ch plant eich hun. Mae hyn yn rhoi lle ei hun i'ch plentyn chi a'r plentyn sy'n cael ei faethu. Os ydych yn maethu brodyr a chwiorydd neu blant o dan 5 oed o'r un rhyw, gallant rannu ystafell wely. Gall babanod rannu ystafell â'r gofalwr maeth, ond dylech allu rhoi ei ystafell wely ei hun i'r plentyn pan fydd yn 18 mis oed.



Cwestiynau cyffredin

C. A fyddaf yn cael fy nhalu? Byddwch yn cael lwfans 'maethu' i helpu i dalu biliau'r cartref. Fel y byddwch yn datblygu'ch gyrfa mewn gofal maeth, byddwch hefyd yn derbyn 'taliadau am sgiliau'. Mae maethu arbenigol yn cynnwys taliad uwch.

C. Alla i ddewis oedran y Plentyn rwyf am ei faethu? Gallwch. Gallwch ddewis plentyn o oedran a fyddai'n cydweddu orau â'ch teulu. Gallwch ofyn am gael newid yr ystod oedran neu ryw os bydd eich amgylchiadau'n newid. Byddwch angen ystod oedran mor eang ag sy'n bosibl.

C. Pa mor hir yw'r broses? Bydd ar asesiad yn cymryd 6 mis o leiaf. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn cael eu cymeradwyo fel gofalwyr maeth ymhen 12 mis ar ôl eu hymholiad cyntaf.

C. Pam mae'n cymryd gymaint o amser? I fod yn ofalwr maeth, rhaid i chi gael eich asesu'n drylwyr i weld a yw maethu'n addas i chi. Mae'n rhaid archwilio'ch cefndir i asesu a fyddai plant yn ddiogel yn eich gofal. Rydym hefyd am ddod i'ch adnabod chi gan ein bod am wneud yn siŵr bod maethu yn llwyddo a'ch bod chi, eich teulu a'r plant yn eich gofal yn elwa.

C. Pa fath o blant fyddwn ni'n eu cael? Bydd y plant y mae angen eu maethu o'r oedran a'r rhyw rydych wedi nodi, ond bydd pob un yn wahanol iawn. Bydd rhai wedi cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, neu efallai y bydd eu rhieni'n ei chael yn anodd gofalu amdany'n nhw a'u cadw'n ddiogel. Nid oes gan rai teuluoedd unrhyw rwydwaith cefnogi i'w helpu yn ystod cyfnod anodd neu gyfnod o salwch ac mae angen gofalu am y plentyn tra caiff problemau eu datrys neu nes bydd eu hiechyd yn gwella.

C. A fydd y rhieni biolegol yn gwybod ble rwy'n byw? Bydd y rhieni'n cael gwybod ble mae'u plant yn byw os byddwn ni'n ystyried bod hynny'n ddiogel.

C. Beth sy'n digwydd pan fydd y plentyn yn cyrraedd 18 oed? Nid yw llawer o bobl ifanc mewn gofal maeth yn barod i fyw ar eu pen eu hunain yn 18 oed. Gall y gofalwr maeth ddewis ymgymryd â rôl landlord gefnogol nes bod y person ifanc yn barod.

Cysylltwch â ni

Am fwy o wybodaeth:

Gwasanaeth Maethu Sir y Fflint

Swyddfeydd y Sir

2il Lawr, Stryd y Capel

Y Fflint, Sir y Fflint, CH6 5BD

Ff: 01352 701965

E: fostering@flintshire.gov.uk

Facebook Maethu Sir y Fflint

www.maethusiryfflint.org.uk

Twitter @Maethu_SyFflint



Os hoffech gynnig sylwadau, canmoliaeth neu gwŷ yn am ein gwasanaeth, ysgrifennwch at:

Swyddog Sylwadau

Cyngor Sir y Fflint

Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant, Neuadd y Sir,

Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND

Os nad ydych yn fodlon â'r ffordd rydym wedi trin eich cwyn, mae gennych hawl i gysylltu â'r Arolygiaeth Safonau Gofal neu â Chomisiynydd Plant Cymru:

Arolygiaeth Safonau Gofal

Swyddfa Ranbarthol Gogledd Ddwyrain Cymru

Tŷ Broncoed, Parc Busnes Broncoed

Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug,

Sir y Fflint, CH7 1HP

Comisiynydd Plant Cymru

Penrhos Manor, Oak Drive, Bae Colwyn,

Conwy, LL29 7YW

Ffôn: 01492 523 333